

Cynllun Cynorthwyo Gwaed  
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood  
Support Scheme



CYSYLLTWCH Â NI

# CYLCHLYTHYR WIBSS

*Tachwedd 2021*

## Cydraddoldeb a Thaliadau

Mae tîm WIBSS yn falch o gadarnhau bod yr holl newidiadau cydraddoldeb bellach wedi'u rhoi ar waith. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni.

## Adborth Gwasanaeth

Diolch i bawb a gymerodd yr amser i gwblhau ein harolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid. Cawsom lawer o sylwadau cadarnhaol, ynghyd â rhai meysydd y gallwn wneud gwelliannau iddynt. Ar hyn o bryd rydym yn casglu'r holl ganlyniadau a byddwn yn rhannu'r rhain cyn gynted ag y gallwn wneud hynny.

Sylwch fod yr holiaduron hyn yn ddiennw, er mwyn galluogi unigolion i rannu eu meddyliau heb ragfarn. Felly, **os ydych yn rhoi unrhyw geisiadau personol yn yr adran sylwadau**, anfonwch e-bost atom neu ffoniwch ni fel y gallwn eich cynorthwyo.

## Oriau'r Nadolig

Fel blynyddoedd blaenorol, bydd WIBSS yn gweithredu yn unol ag oriau swyddfa arferol drwy gydol cyfnod y Nadolig, ond bydd rhai staff yn cymryd seibiant haeddiannol. Oherwydd gwyliau banc, bydd y swyddfa ar gau ar 27 a 28 Rhagfyr, a 3 Ionawr 2022.

Bydd taliadau mis Rhagfyr yn cael eu derbyn heb fod yn hwyrach na 20 Rhagfyr.

## Dewisiadau Cyfathrebu

Os ydych yn derbyn y cylchlythyr hwn neu ohebiaeth WIBSS arall, gan gynnwys cyngor talu, drwy'r post, ond byddai'n well gennych dderbyn y cyfan yn ddigidol, cysylltwch â ni ar [wibss@wales.nhs.uk](mailto:wibss@wales.nhs.uk) i ofyn am newid.

Cysylltwch â WIBSS ar  
**02920 902280** neu anfonwch  
e-bost at [wibss@wales.nhs.uk](mailto:wibss@wales.nhs.uk)

Ar hyn o bryd rydym yn cydymffurfio â chanllawiau COVID-19 Llywodraeth Cymru gan weithio gartref lle bo hynny'n bosibl.


Os nad yw eich galwad yn cael ei hateb, gadewch neges gyda'ch enw a'ch rhif cyswllt a byddwn yn eich ffonio yn ôl yn brydlon.

Ar gyfer Seicoleg a Llesiant anfonwch e-bost at:  
[wibss.wellbeing@wales.nhs.uk](mailto:wibss.wellbeing@wales.nhs.uk).

## Cyswllt Diweddar

Rydym yn cymryd eich gwybodaeth bersonol o ddifrif.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch tarddiad llythyr yn gofyn am eich data personol, sy'n ymddangos fel pe bai'n dod o WIBSS, cysylltwch â ni ar ein llinell uniongyrchol, **02920 902280**.



Cynllun Cynorthwyo Gwaed  
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood  
Support Scheme

## HAWLIAU LLESIANT

Darparu cyngor cyfrinachol i chi a'ch teulu ynglŷn â Budd-daliadau, Arian, Eiriolaeth, Cymorth a mwy.

Mae gwaith achos diweddar wedi dwyn ein sylw at gamgymeriad, lle roedd cronfeydd WIBSS yn cael eu hystyried mewn gwiriad fforddiadwyedd ariannol gofal, er bod deddfwriaeth sy'n datgan y dylid ei ddiystyru. Yn yr achos hwn, roedd awdurdod lleol yn cynnwys cronfeydd WIBSS wrth gwblhau asesiad ariannol ac, o ganlyniad, roedd y person yn talu am ffioedd cartrefi gofal. Cynorthwyodd WIBSS yr unigolyn hwn i gywiro'r gwall hwn drwy ddarparu datganiad ysgrifenedig yn cadarnhau na ddylid cynnwys taliadau WIBSS. Os ydych chi, neu rywun arall rydych chi'n ei adnabod, mewn sefyllfa debyg, rydym yn hapus i helpu i ddatrys hyn.

Mae'r eithriad hwn, fel bob amser, hefyd yn berthnasol i fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, Treth Incwm, Budd-dal Tai a Chynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am hyn, neu unrhyw gymorth arall y gall y tîm Hawliau Llesiant ei roi i chi — mae croeso i chi gysylltu â ni ar 02920 902280.

### Tîm Seicoleg a Llesiant

Mae eich tîm Seicoleg a Llesiant ymroddedig wedi cyflwyno geirdaon gan gleientiaid yn ddiweddar i dudalen we WIBSS. Os nad ydych yn siŵr a yw'r gwasanaeth yn addas i chi, ewch i <https://wibss.wales.nhs.uk/the-psychology-wellbeing-service> a darllenwch am brofiadau pobl eraill sydd wedi cael cymorth. Os nad oes gennych fynediad at y rhynggrwyd, byddwn yn hapus i anfon copiâu papur drwy'r post. Cysylltwch â ni ar 02920 902280 i ofyn am y rhain.

---

*Gan ddymuno gwyliau'r Nadolig pleserus i chi i gyd,*

**Tîm WIBSS**

---

